Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Pedr

Teras Ffynnonbedr
Llambedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7BX

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymr

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Pedr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Pedr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Ysgolion pob oed |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1012 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 810 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 137 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 20.2%) | 21.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 8.6%) | 5.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.9% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://mylocalschool.gov.wales)

a. Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Bro Pedr yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarn â disgyblion, gan greu amgylchedd lle mae llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn gwneud cynnydd addas, gyda lleiafrif yn gwneud cynnydd cryf.

Rhoddir pwyslais cryf iawn ar lais y disgybl ac, o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol gwerthfawr. Mae dylanwad y senedd a'r fforymau trafod ar fywyd a gwaith yr ysgol yn sylweddol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda, yn defnyddio ystod o strategaethau effeithiol ac yn cyflwyno gwersi ysgogol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau darllen a rhifedd ar draws y cwricwlwm, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig gan athrawon bob amser yn ddigon manwl i helpu disgyblion i wella ansawdd eu gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau mewn amrywiol gyd-destunau. Mae llawer yn ysgrifennu'n glir mewn amrywiaeth o ffurfiau, megis adroddiadau newyddion ac areithiau. O'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn hyderus, gan greu animeiddiadau o ansawdd da a defnyddio meddalwedd arbenigol i gyflwyno eu gwaith. Mae disgyblion hefyd yn elwa o raglen gyfoethog o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys teithiau addysgol, clybiau a phrofiadau sy'n ehangu eu gorwelion.

Mae Canolfan y Bont yn darparu amgylchedd dysgu eithriadol o gynhwysol ac ymatebol i ddisgyblion 11–19 oed ag anghenion dwys a chymhleth. Mae'r addysgu wedi'i seilio ar egwyddorion personol a holistig, gan ystyried anghenion corfforol, gwybyddol ac emosiynol pob unigolyn. Yn sgil hyn, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sesiynau cyfrwng Cymraeg. Mewn sesiynau cyfrwng Saesneg, nid yw'r athrawon yn annog disgyblion ddigon i ddefnyddio Cymraeg yn achlysurol ac mae llawer yn troi'n rhy gyflym at y Saesneg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth a'r tîm arwain yn gryf ac yn bwrpasol, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddysgu a llwyddo mewn amgylchedd cynhwysol ac uchelgeisiol. Mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon i ganfyddiadau hunanwerthuso ac yn gwneud addasiadau penodol sy'n arwain at gynnydd pendant. Er bod presenoldeb disgyblion yn cymharu'n weddol gyda lefelau'n genedlaethol, maent yn parhau i fod yn rhy isel.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1. Sicrhau cysondeb yn ansawdd adborth ar waith a’r lefel her i gael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion.

A2. Cynyddu’r defnydd o Gymraeg achlysurol yn y gwersi cyfrwng Saesneg er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg yn fwy hyderus.

A3. Gwella presenoldeb.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â Chanolfan y Bont, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae bron bob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion a’u hathrawon, ac yn hynod o groesawgar a chynnes gydag ymwelwyr.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon a staff cynorthwyol yn cynnal perthynas waith gadarnhaol â disgyblion sy’n sicrhau bod llawer ohonynt yn dangos diddordeb yn y sesiynau ac yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu. Mae’r athrawon hynny yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad ac ymrwymiad disgyblion tuag at eu gwaith. Yn ystod y sesiynau dysgu, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio’n llawn ar eu tasgau ac yn dyfalbarhau. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau’r athro ac maent yn dangos balchder amlwg yn eu gwaith.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gref ac maent yn rhoi cyfarwyddiadau eglur gan fodelu’r dysgu yn effeithiol er mwyn gosod sylfeini cadarn. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd digonol, o leiaf. Yn y sesiynau gorau, ble mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol gan ddefnyddio dulliau bwriadus ac adnoddau apelgar. Maent yn herio eu disgyblion yn llawn.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu diddorol sy’n adeiladu ar fedrau a gwybodaeth disgyblion yn llwyddiannus. Yn y sesiynau hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i adalw gwybodaeth sy’n caniatáu i athrawon asesu eu dealltwriaeth a chynnydd. Mae llawer o athrawon yn holi’n bwrpasol a rheolaidd i wirio a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion ac maent yn rhoi adborth amserol a phwrpasol ar lafar wrth iddynt gylchu’r dosbarth i gefnogi’r dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn holi’r disgyblion yn grefftus a heriol er mwyn annog meddwl dyfnach a datblygu’r dysgu yn effeithiol.

Lle mae disgyblion yn gwneud y cynnydd cryfaf, mae athrawon yn eu harwain i weithredu ar adborth effeithiol mewn sesiynau strwythuredig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cyfoethogi cynnwys ac ansawdd eu gwaith. Er hyn, nid yw’r sylwadau ysgrifenedig ar waith disgyblion bob tro’n ddigon penodol i arwain at ddilyniant priodol ac mae’r gwallau yng ngwaith lleiafrif o ddisgyblion yn parhau.

Yn y mwyafrif o sesiynau, mae cyflymder y wers yn hybu'r cynnydd ac yn sicrhau diddordeb y disgyblion yn eu gwaith. Yn y sesiynau hyn, mae gan yr athro adnabyddiaeth gadarn o anghenion disgyblion gan strwythuro'r gefnogaeth a'r her yn addas i sicrhau cynnydd bron pob un disgybl. Mewn ychydig o sesiynau, nid yw cyflymder y wers yn cyd-fynd â chyflymder y dysgu, ac mae cyfleoedd i herio disgyblion yn llawn yn cael eu colli.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin medrau llafaredd disgyblion yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y disgyblion iau yn cymryd rhan yn hyderus mewn sgyrsiau, gan rannu eu profiadau ac arddangos gafael dda ar y Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion oedran cynradd yn mynegi syniadau'n glir, gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Mae mwyafrif y disgyblion oedran uwchradd yn ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau ac yn mynegi syniadau'n gryno, er bod rhai'n cynnig ymatebion byrion, ar adegau. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn huawdl, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog. Er bod y mwyafrif yn defnyddio'r Gymraeg o fewn sesiynau cyfrwng Cymraeg yn hyderus gydag acen naturiol, mae llawer yn rhy barod i droi at Saesneg wrth drafod â chyfoedion o fewn sesiynau ac yn anffurfiol tu hwnt i furiau'r dosbarth.

### Ciplun: Datblygu darllen

Mae'r ysgol wedi darparu hyfforddiant i staff ar strategaethau darllen penodol fel 'Darllen dan arweiniad' a 'Pawen Lawen' er mwyn arfogi disgyblion i ddatblygu eu medrau darllen. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn elwa ar gyfleoedd buddiol i wella'r medrau hyn. Maent yn darllen testun yn effeithiol gan ffocysu ar y rhag ddarllen, yn ystod y darllen ac ar ôl y darllen er mwyn dyfnhau dealltwriaeth. Mae gan lawer o ddisgyblion strategaethau megis adeiladu geiriau a defnyddio cyd-destun i allu darllen y gair yn gywir. Wrth ddarllen ar goedd, mae mwyafrif y disgyblion iau yn darllen yn glir ac ystyrlon, gan fynegi goslef priodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn deall testunau'n effeithiol, yn cywain gwybodaeth berthnasol ac yn amlygu prif bwyntiau. Mae ychydig o ddisgyblion oedran uwchradd, yn benodol, yn dadansoddi'n feirniadol trwy gymharu a gwahaniaethu rhwng safbwyntiau awduron neu feirdd yn y sesiynau Cymraeg a Saesneg neu ffynonellau yn y sesiynau hanes. Maent yn llunio casgliadau ystyriol o'r hyn maent wedi ei ddarllen. Mae'r diwylliant darllen yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws yr ysgol, gan feithrin agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at ddarllen er mwyn pleser.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu darnau bach o naratif wrth ddisgrifio’r corryn erbyn diwedd Blwyddyn 1. Yn nes ymlaen, mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol cadarn ac yn defnyddio ystod dda o eirfa, ymadroddion ac idiomau. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion hŷn ysgrifennu’n estynedig. Mae’r mwyafrif yn ysgrifennu’n gymwys mewn ystod briodol o ffurfiau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd ar lifogydd Pontypridd yn y sesiynau daearyddiaeth neu araith brotest ar bwnc perthnasol o dan y teitl ‘No farmers, no food, no future’ yn eu sesiynau Saesneg. Ar y cyfan, mae gan fwyafrif y ddisgyblion afael dda ar sillafu a gramadeg. Fodd bynnag, mae’r lleiafrif yn gwneud camgymeriadau gramadeg a sillafu sylfaenol yn y ddwy iaith.

Yn y sesiynau Cymraeg fel ail iaith, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud a llawer yn arddangos dealltwriaeth gadarn o eirfa Gymraeg o fewn thema’r dosbarth. At ei gilydd, mae llawer o’r disgyblion yn rhy ddibynnol ar adnoddau cefnogi sy’n eu hatal rhag datblygu hyder i siarad ac ysgrifennu’n ddi-gymell. Yn y sesiynau cyfrwng Saesneg, nid oes digon o gyfleoedd i’r disgyblion ddefnyddio a chlywed y Gymraeg yn achlysurol ac mae hyn yn eu rhwystro rhag cyflawni eu potensial i fod yn siaradwyr hyderus.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion yn y sesiynau mathemateg ac mewn pynciau perthnasol eraill. Mae gan lawer o ddisgyblion oedran cynradd fedrau rhifedd sylfaenol cadarn. Erbyn diwedd Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth wneud cyfrifiadau a defnyddio arian. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis yr offer cywir i fesur gwrthrychau ac maent yn llunio a dehongli graffiau bar a phictogramau yn hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dewis a defnyddio dulliau addas i gyfrifo cymedr, modd, canolrif ac amrediad yn gywir mewn cyd-destunau amrywiol.

Mae gan lawer o ddisgyblion oedran uwchradd afael priodol o’r pedair rheol rhif. Mae llawer yn datblygu eu medrau siâp a mesur yn dda ac yn gallu cyfrifo arwynebeddau a chyfeintiau amrywiaeth o siapiau. Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symleiddio mynegiadau gan ddefnyddio ffracsiynau yn eu termau symlaf yn llwyddiannus ac yn cyfrifo canrannau yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso’u medrau rhifedd yn dda mewn pynciau perthnasol eraill. Er enghraifft, yn y sesiynau daearyddiaeth, mae llawer ohonynt yn llunio graffiau hinsawdd â chywirdeb addas, gan blotio bariau glawiad a llinellau tymheredd yn briodol. Mae medrau dadansoddi data datblygedig gan lawer o ddisgyblion. Maent yn cyfrifo mesurau ystadegol ac yn llunio graffiau cywir gan ddod i gasgliadau synhwyrol.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio offer digidol yn annibynnol. Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r adnoddau er mwyn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol mewn gweithgareddau perthnasol a difyr. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn creu animeiddiad digidol syml. Mae'r disgyblion mwy hyderus yn ychwanegu swigod siarad i'w hanimeiddiad yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn datblygu hyder wrth gymhwyso'u gwahanol fedrau digidol mewn amrediad da o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Caiff disgyblion Blwyddyn 7 gyfle i ddefnyddio pecyn meddalwedd penodol er mwyn creu fideo ar ffurf animeiddiad yn adlewyrchu tirffurfiau arfordir Cymru. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, mae disgyblion yn trin data a datblygu eu meddwl cyfrifiadurol yn briodol.

Mae arweinwyr ac athrawon yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu cydlynus sy'n pontio'r cyfnodau oedran ar draws yr ystod 3-19 yn effeithiol. Mae arwyddair yr ysgol, 'A fo ben bid bont', yn greiddiol i'w weledigaeth. O ganlyniad, o'r dosbarth meithrin i'r chweched dosbarth, mae natur gynhwysol cwricwlwm Ysgol Bro Pedr yn gryfder nodedig. Mae Canolfan y Bont yn darparu amgylchedd ddysgu eithriadol o gynhwysol ac ymatebol i ddisgyblion 11-19 oed sydd ag anghenion dwys a chymhleth. Mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar egwyddorion personol a holistig, gan ystyried anghenion corfforol, gwybyddol ac emosiynol pob unigolyn. Mae'r cwricwlwm a gynigir yng Nghanolfan y Bont a'r ganolfan sgiliau bywyd yn eang, cytbwys, ac yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru, gan feithrin medrau bywyd hanfodol fel rhyngweithio cymdeithasol, creadigrwydd ac annibyniaeth.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi'n effeithiol ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth iechyd a lles ac addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn gryfder nodedig ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad disgyblion. Atgyfnerthir hyn ymhellach drwy'r sesiynau 'Yr Hyn Sy'n Bwysig' ble mae materion cyfoes yn cael eu hamlygu a'u cyflwyno drwy gyfraniadau gwerthfawr y 'Gohebwyr Ifanc' a'r 'Llysgenhadon Gwych'. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o nodweddion perthnasoedd iach, rhywioldeb, ac amrywiaeth perthnasoedd, ac o ganlyniad maent yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda thegwch a pharch.

Drwy gynllunio bwriadus ar hyd yr ystod oedran, mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion oed cynradd yn dysgu am enwogion Cymru, gan berfformio monologau yn seiliedig ar hanes Betty Campbell a chynhyrchu gwaith celf trawiadol ar eu harwyr.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw’r cyfleoedd a’r profiadau cyfoethog ychwanegol sydd ar gael tu hwnt i’r sesiynau dysgu. Mae gan yr ysgol amrywiaeth eang o glybiau a gweithgareddau, megis clwb garddio, ioga, ‘Dungeons and Dragons’, sioeau cerdd a chlybiau chwaraeon niferus. Cynhelir llawer o’r clybiau hyn yn ystod y ‘Prynhawn Lles’ ac mae adborth disgyblion a rhieni i’r cyfnodau hyn yn gadarnhaol iawn. Mae athrawon yn cyfoethogi profiadau eu disgyblion ymhellach drwy lu o ymweliadau a theithiau addysgol sydd wedi cysylltu’n bwrpasol â’r dysgu. Er enghraifft, trefnir teithiau i Lan Llyn a Llangrannog, taith rhad ac am ddim Blwyddyn 6 i gefeilldref Llanbedr Pont Steffan yn Ffrainc, a theithiau’r adran ddaearyddiaeth i Wlad yr Iâ a’r adran hanes i Ypres a’r Somme. Mae’r holl brofiadau gwerthfawr hyn yn cyfrannu’n sylweddol tuag at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion tuag at eu hysgol a’u balchder at fod yn aelodau ohoni.

Mae’r ardaloedd dysgu yn yr adran gynradd yn fannau bywiog a lliwgar. Maent wedi eu cynllunio’n ofalus er mwyn darparu amrediad eang o brofiadau a gweithgareddau ar gyfer y disgyblion. Mae’r disgyblion dosbarthiadau meithrin a derbyn yn cael cyfleoedd rheolaidd a buddiol i chwarae gydag offer a deunyddiau perthnasol, yn ôl eu dymuniad. Mae’r staff hefyd yn adnabod cyfleoedd buddiol i addysgu medrau penodol yn unol â cham datblygiad y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu’n unigolion hyderus sy’n gwneud dewisiadau addas a mynegi barn yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4 a’r Chweched Dosbarth, sy’n diwallu anghenion bron bob un o’r disgyblion, gyda nifer o’r cyrsiau yn deillio o lais y dysgwr. Mae’r arlwy hon yn cynnwys cwrs amaeth a thrin gwallt, ac mae gan yr ysgol adnoddau rhagorol ac ysgogol i gyflwyno’r cyrsiau hyn, gan gynnwys garej ceir yn y ganolfan dechnoleg. Mae’r disgyblion a rhieni yn gwerthfawrogi ymdrechion yr ysgol i ddatblygu’r cwricwlwm, a’r cyngor a roddir er mwyn cefnogi eu camau nesaf.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan y tîm lles, presenoldeb ac ymddygiad weledigaeth gref ar gyfer sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hapus ac yn barod i ddysgu. Mae lles y disgyblion yn greiddiol ac wrth wraidd eu gwaith, ac maent yn angerddol dros sicrhau bod disgyblion yn ffynnu fel unigolion unigryw. Mae staff yn cynnal perthynas weithio agos a chynhaliol â’r disgyblion. Maent yn gweithredu systemau cyson a theg er mwyn cynnal a chefnogi ymddygiad disgyblion, gyda’r ddarpariaeth POD (parchu oriau dysgu) yn fodd effeithiol o sicrhau bod yr ychydig ddisgyblion sydd angen cynhaliaeth yn barod i ddysgu a chydymffurfio.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer herio a chefnogi presenoldeb disgyblion. Mae'r staff yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd gan bwysleisio pwysigrwydd ac effaith mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Mae staff yn dathlu presenoldeb da a chynnydd arwyddocaol mewn cyfraddau presenoldeb ac mae disgyblion yn ymfalchïo pan fydd ganddynt hwy, a'u dosbarth, gyfran presenoldeb uchel ar gyfer wythnos neu gyfnod. O ganlyniad, mae presenoldeb yr ysgol dros y ddwy flynedd diwethaf uwchlaw lefelau cenedlaethol. Fodd bynnag, bu gostyngiad bychan ym mhresenoldeb yr ysgol y llynedd ac mae'n parhau'n is na'r lefelau cyn y pandemig.

Darperir amrediad effeithiol o gefnogaeth er mwyn lliniaru effaith tlodi ar ddisgyblion ac mae staff yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol. Cynigir gwasanaeth galw heibio (Y "Sied Siario") lle gall rhieni neu ofalwyr ddewis dillad ysgol am ddim, casglu bwyd a chymryd adnoddau i gefnogi addysg eu plant.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae'r tîm ADY yn cydweithio'n bwrpasol ag asiantaethau allanol perthnasol ac yn ymateb yn amserol i wybodaeth am anghenion. Maent yn cynnal cyfarfodydd adolygu pwrpasol ac yn llunio cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un tudalen manwl er mwyn cefnogi disgyblion yn effeithiol. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan y cynorthwywyr dosbarth yn gryfder nodedig.

Mae'r 'Ganolfan Sgiliau Bywyd' yn ddarpariaeth werthfawr lle mae disgyblion ag anghenion dysgu dwys a chymhleth yn teimlo'n ddiogel ac yn datblygu hyder wrth dderbyn cwricwlwm amgen. Cânt amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr megis dysgu yn yr awyr agored ac maent yn datblygu medrau buddiol, fel coginio, sy'n arwain at gymwysterau galwedigaethol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio trylwyr ac effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo ar wahanol adegau o'u gyrfa ysgol, ac wrth iddynt baratoi ar gyfer symud ymlaen at addysg bellach neu fyd gwaith.

Mae'r dylanwad ac effaith llais y disgybl yn elfen ragorol o waith yr ysgol, ac mae'n cael ei defnyddio i lywio pob agwedd o'r ddarpariaeth. Mae aelodau'r fforymau a senedd yr ysgol yn unigolion huawdl, parchus a hyderus. Maent yn arddangos medrau arwain aeddfed, ac yn dylanwadu'n llwyddiannus ar brofiadau eu cyd-ddisgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn yr ysgol yn teimlo bod y tîm arwain a'r llywodraethwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn amserol i unrhyw ddymuniad ganddynt.

### Ciplun: Llais y disgybl

Mae rôl y senedd yn gryfder eithriadol yn yr ysgol. Mae aelodau'r senedd yn ymfalchïo yn y modd allweddol y mae eu llais yn dylanwadu ar benderfyniadau, megis wrth greu ardaloedd cysgodol a thawel ar gyfer disgyblion amser egwyl, darparu siop ffrwythau ac offer iddynt chwarae ar y buarth. Yn ogystal, maent yn cyfrannu at werthuso effeithiolrwydd cynlluniau gwaith neu themâu dysgu, gyda barn y disgyblion yn cael ystyriaeth gan staff.

Caiff disgyblion y fforwm dysgu ac addysgu fewnbwn i'r cwricwlwm wrth graffu ar lyfrau gydag athrawon, a gwneud awgrymiadau. Yn ddiweddar, cyflwynwyd cyrsiau Amaethyddiaeth Lefel 2 a Thrin Gwallt Lefel 3 o ganlyniad i geisiadau gan ddisgyblion. Mae aelodau'r senedd yn chwarae rhan bwysig wrth wneud penodiadau ar gyfer swyddi yn yr ysgol, gan gyfrannu at baneli cyfweld ac arsylwi gwersi.

Mae gwaith y fforymau a'r senedd yn cael ei rannu trwy gylchlythyr rheolaidd a safonol ac mae'r gwaith yn cael ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i ganmol gan yr holl randdeiliaid.

Mae Canolfan y Bont yn mabwysiadu dull rhagweithiol a meithringar o weithio gan ddarparu gweithgareddau therapiwtig a holistig effeithiol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad pob un. Maent yn addysgwyr medrus ac yn unigolion gofalgar sy'n ymateb i anghenion newidiol y disgyblion. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau, gweithgareddau allgyrsiol, a sesiynau perfformio a chlybiau amrywiol.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu disgyblion yn treiddio trwy'r ysgol. Mae prosesau cadarn iawn i gofnodi ac ymateb i bryderon am ddisgyblion unigol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau hyfforddiant priodol i staff ar bob lefel ar ddiogelu, atal radicaliaeth ac adnabod arwyddion posibl o gam-drin. Mae'r staff felly'n deall eu rolau a'u cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae'r ysgol yn cydweithio'n bwrpasol ag asiantaethau allanol ac awdurdodau lleol i gefnogi lles a diogelwch disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dangos parch at eraill.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd doeth, cynhwysol a chydwybodol. Er ei bod yn gymharol newydd i'w rôl, mae eisoes wedi ennill parch ac ymddiriedaeth ei chydweithwyr a chymuned ehangach yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer disgyblion Ysgol Bro Pedr. Mae'r weledigaeth hon yn cwmpasu adeiladu a chryfhau sylfeini cadarn er mwyn galluogi'r disgyblion i gamu ymlaen a'u taith addysgol yn hapus a llwyddiannus gan adleisio arwyddair yr ysgol -' a fo ben bid bont'. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae'n modelu ymddygiadau ac agweddau proffesiynol a pharchus ym mhob agwedd o'i gwaith. Mae hi'n gweithio'n ddiwyd ac yn ddiflino er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cynnig cyfoeth o brofiadau addysgol ac allgyrsiol gwerthfawr a chynhwysfawr ar gyfer y disgyblion yn ogystal â darpariaeth academaidd heriol a chynhwysol.

Mae'r tîm arwain hefyd yn gymharol newydd i'w rolau presennol. Maent wedi cydio yn eu cyfrifoldebau yn awchus ac yn eu cyflawni'n gynyddol lwyddiannus. Maent yn weithgar, yn egnïol ac yn gefnogol iawn o'r pennaeth. Cefnogir gwaith y tim arwain gan arweinwyr canol brwdfrydig ac angerddol. Ar draws yr ysgol, mae cyfrifoldebau arweinwyr wedi eu dosrannu'n  synhwyrol, yn unol â'u harbenigeddau. Nodwedd arbennig o'u gwaith yw'r pwyslais ar greu ysgol gynhwysol sy'n parchu a dathlu amrywiaethau, diddordebau a dyheadau pob unigolyn.

Mae arweinyddiaeth yng Nghanolfan y Bont yn nodedig. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir a chraff o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd sydd angen datblygiad pellach. Maent yn meithrin partneriaethau cryf ag asiantaethau proffesiynol, gan greu rhwydwaith cefnogol o amgylch pob disgybl. O ganlyniad i ymrwymiad cryf arweinwyr i sicrhau cynhwysiant o'r radd uchaf, mae pob disgybl yn cael cyfleoedd cadarn i lwyddo.

Mae calendr clir o weithgareddau ar gyfer gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn casglu tystiolaeth trwy arsylwadau, craffu ar waith a chyrchu barn disgyblion a staff. Agwedd nodedig o waith yr arweinwyr yw'r ffordd maent yn ymateb yn brydlon i feysydd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, yn dilyn canfyddiadau hunanwerthuso, mae arweinwyr yn cyflwyno addasiadau bwriadus i gynlluniau darllen yr ysgol. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at gynnydd cyflym ym medrau llythrennedd llawer o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r fforwm Cymreictod yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn annog defnydd o'r iaith yn fwriadus. Mae prosiectau fel Radio Bro Pedr yn ychwanegu at yr ethos Cymreig yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol drefniadau cryf i liniaru effaith tlodi ac amddifadedd ar les a chyflawniad disgyblion.

Ceir diwylliant dysgu proffesiynol cadarnhaol, lle mae’r staff yn rhannu arferion ac arbenigeddau i wella eu hymarfer, yn myfyrio ar syniadau a datblygiadau ac yn dysgu ar y cyd. Defnyddiant fforwm megis Perlau Pedr i gyflwyno arferion llwyddiannus a datblygiadau newydd. Mae ymholi a choetsio a dysgu proffesiynol parhaus yn cynorthwyo pob aelod staff i wella eu harfer. Mae'r meysydd ffocws yn cysylltu’n glir â blaenoriaethu’r ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae’r llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cefnogi a chynnal lles y staff yn effeithiol ac yn gweithredu’n dda yn eu rôl wrth herio’r pennaeth ar safonau’r disgyblion a’r ddarpariaeth ar eu cyfer. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn feistrolgar a chydwybodol ac yn cynnal ymweliadau pwrpasol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Golyga hyn fod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella.

Caiff rheolaeth ariannol ei goruchwylio’n hynod lwyddiannus gan y rheolwr busnes, y llywodraethwyr a’r pennaeth. Maent yn gwneud defnydd arbennig o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion, er enghraifft trwy gyfrannu arian i sicrhau bod gan pob plentyn ym Mlynyddoedd 7 i 9 fynediad at offer digidol personol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â’i theuluoedd. Mae llawer yn teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles, addysg ac anghenion eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol ei rhannu’n effeithiol â’r rhieni drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu, er enghraifft 'Llais Pedr’, y cylchlythyr wythnosol. Mae’r gymdeithas rhieni ac athrawon yn gweithio’n ddiwyd i hel arian i wella cyfleusterau’r ysgol. Er enghraifft, casglwyd arian ar gyfer archebu adnoddau i gefnogi cwrs amaeth yr ysgol a chefnogi elusen leol sy’n gwarchod iechyd meddwl ffermwyr drwy gynnal taith tractor a cheir Nadolig.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025